Cyngor Bro Morgannwg

Y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)

Adroddiad Blynyddol

2017 - 2018

CYNNWYS

Adran 1 – Gwybodaeth am CYSAG
1.1 Dyletswydd i sefydlu CYSAG
1.2 Cyfansoddiad CYSAG
1.3 Aelodaeth CYSAG
1.4 Swyddogaethau CYSAG
1.5 Cyfarfodydd
1.6 Dosbarthiad yr adroddiad

Adran 2 – Crynodeb gweithredol
2.1 Addysg grefyddol
2.2 Maes llafur cytûn
2.3 Deunyddiau hyfforddi
2.4 Hyfforddiant athrawon
2.5 Cydaddoli
2.6 Materion eraill

Adran 3 – Crynodeb o'r cyngor i'r awdurdod lleol ar addysg grefyddol
3.1 Y maes llafur y cytunwyd arno'n lleol
3.2 Safonau mewn addysg grefyddol
3.3 Dulliau addysgu, deunyddiau addysgu a hyfforddiant athrawon

Adran 4 – Crynodeb o'r cyngor ar gydaddoli
4.1 Adroddiadau arolygu ysgolion
4.2 Hunanwerthuso ysgolion
4.3 Penderfyniadau

Adran 5 – Crynodeb o faterion eraill
5.1 CCYSAGC
5.2 PYCAG
5.3 Adolygiad cwricwlwm

Atodiadau
Atodiad 1. Rhestr o aelodau CYSAG
Atodiad 2. Cofnodion cyfarfodydd
Atodiad 3. Rhestr y sefydliadau a dderbyniodd gopi o'r adroddiad
Atodiad 4. Canlyniadau arholiadau – Safon Uwch TGAU 2014-2016
Atodiad 5. Canlyniadau asesiadau athrawon Cyfnod Allweddol 3

ADRAN UN

GWYBODAETH AM CYSAG

1.1 Dyletswydd i sefydlu CYSAG

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol (ALl) sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol)CYSAG) yn ei ardal leol.

1.2 Cyfansoddiad CYSAG

Mae'n ofynnol sicrhau y gynrychiolaeth ganlynol ar CYSAG:

- Yr enwadau Cristnogol ac enwadau crefyddol eraill sydd, ym marn yr ALl, yn adlewyrchu'n briodol brif draddodiadau crefyddol yr ardal;
- cymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon; a'r
- ALl

Dyletswydd yr ALl yw sicrhau bod aelodau'r grwpiau yn cael eu penodi a'u bod yn gynrychioliadol.

1.3 Aelodaeth CYSAG

Mae rhestr aelodau CYSAG Bro Morgannwg wedi ei nodi yn Atodiad 1.

1.4 Swyddogaethau CYSAG

Prif swyddogaeth CYSAG yw:

- cynghori'r ALl ar addoli a'r addysg grefyddol i'w rhoi yn unol â'r maes llafur cytûn, gan gynnwys y dulliau addysgu, cyngor ar ddeunyddiau a darparu hyfforddiant i athrawon;
- ystyried a ddylid argymell i'r ALl adolygu ei faes llafur cytûn presennol drwy gynnull Cynhadledd Maes Llafur Cytûn;
- ystyried ceisiadau gan ysgolion ar gyfer penderfyniadau (i'w heithrio o'r gofyniad i addoli fod yn "Gristnogol")
- adrodd i'r ALl a'r Adran Addysg a Sgiliau (AAS) yn flynyddol ar ei weithgareddau.

1.5 Cyfarfodydd CYSAG

Cynhaliwyd tri chyfarfod o CYSAG yn ystod blwyddyn academaidd 2017– 2018:

- 8fed Tachwedd, 2017
- 2il Mai 2018
- 13eg Mehefin 2018

Cofnod o brif eitemau'r agenda a drafodwyd yn ystod y cyfarfodydd sydd i'w canfod yn Atodiad 2.

1.6 Dosbarthiad yr adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn wedi ei ddosbarthu i'r sefydliadau a restrir yn Atodiad 3.

ADRAN DAU

CRYNODEB GWEITHREDOL

CRYNODEB O'R CYNGOR A RODDWYD I'R AWDURDOD LLEOL GAN CYSAG

2.1 ADDYSG GREFYDDOL

Crynodeb byr o'r cyngor a roddwyd i'r awdurdod lleol gan CYSAG fel a ganlyn:

Nod: Monitro darpariaeth a safonau addysg grefyddol

Cam gweithredu

1. CYSAG i ystyried a dadansoddi adroddiadau archwilio ysgolion. Os oes unrhyw faterion sy'n ymwneud ag addysg grefyddol, megis methu â chyflawni gofynion statudol, yna bydd yr ALl yn cymryd ymagwedd ragweithiol gan weithio gydag ysgolion i gynhyrchu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau. Rhoddir cymorth lle bo angen. Yn ystod blwyddyn academaidd 2017-2018 doedd dim angen camau gweithredu dilynol.
2. Mewn ymgynghoriad â'r ALl a'i ysgolion, penderfynodd CYSAG ddefnyddio hunanwerthusiad ysgolion fel dull o gyflawni ei gyfrifoldeb statudol i fonitro darpariaeth a safonau addysg grefyddol. Cytunwyd i gysylltu ag ysgolion yn y flwyddyn cyn yr archwiliad. Yn ystod blwyddyn academaidd 2013 – 2014 derbyniwyd gwybodaeth gan un ysgol gynradd yn unig er bod cais am wybodaeth wedi mynd at naw ysgol. O ystyried hyn a'r drefn newydd o roi byr rybudd o arolygiad, cytunwyd i adolygu'r drefn o ofyn am adroddiadau hunanwerthuso. Gofynnwyd i benaethiaid am eu barn ar systemau amrywiol o wneud cais am wybodaeth. Yng nghyfarfod gwanwyn 2016, cytunwyd y byddai llythyr yn cael ei ysgrifennu at bob ysgol y derbyniwyd ei hadroddiad archwilio yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, i'w llongyfarch ar yr elfennau da a nodwyd gan Estyn a holi am wybodaeth drwy gyfrwng y ffurflen hunanwerthuso. Ni dderbyniodd CYSAG ymatebion yn ystod 2017-2018 a bydd CYSAG yn adolygu'r broses o fonitro drwy hunanwerthusiad yn nhymor yr hydref fel ei fod yn cyd-fynd â Fframwaith Arolygu newydd Estyn.
3. Mae CYSAG yn dadansoddi canlyniadau arholiadau dros gyfnod o dair blynedd ac yn nodi tueddiadau o ran perfformiad wedi ei feincnodi yn erbyn data Cymru gyfan. Hysbysir ysgolion o ganlyniadau'r dadansoddiad hwn ac unrhyw faterion a godir gan CYSAG.
4. Mae'r ALl a'i CYSAG yn casglu a dadansoddi data drwy gyfrwng y Consortiwm sy'n ymwneud ag asesiadau athrawon addysg grefyddol Cyfnod Allweddol 3. Cyflwynir yr wybodaeth i CYSAG a'i yrru i'r holl ysgolion uwchradd yn yr ALl.
5. Yn 2016-17 ysgrifennodd CYSAG i bob ysgol yn yr awdurdod lleol i'w hatgoffa bod cwmpas rhaglen astudio'r maes llafur y cytunwyd arno'n lleol yn parhau yn ofyniad statudol wrth adolygu'r cwricwlwm. Ysgrifennodd hefyd at ysgolion uwchradd gan dynnu sylw penodol at ddarparu AG yn ystod CA4 i'w hysbysu nhw na fyddai cyflwyno uned Dinasyddiaeth Fyd-eang ynddo'i hun yn ddigonol i fynd i'r afael a holl agweddau rhaglen astudio maes llafur cytûn CA4. Gofynnodd CYSAG i bob ysgol gadarnhau ei bod yn deall gofynion y maes llafur cytûn a'i bod yn cyrraedd y safonau statudol hyn.

2.2 MAES LLAFUR CYTÛN

Nod: Cyflawni'r gofyniad cyfreithiol i adolygu'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol bob pum mlynedd a monitro ei fod yn cael ei roi ar waith.

Cam gweithredu

1. Yn 2008 cymeradwyodd a mabwysiadodd y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn faes llafur cytûn newydd ar gyfer ysgolion yr Awdurdod i'w roi ar waith o fis Medi 2008. Derbyniodd pob ysgol gynradd raglen o hyfforddiant mewn swydd ar y maes llafur cytûn newydd yn ystod haf 2008.

2. Ym Mehefin 2008 cymeradwyodd y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn ail-fabwysiadu maes llafur cytûn addysg grefyddol Bro Morgannwg, ar y ddealltwriaeth y câi'r maes llafur ei adolygu unwaith i wybodaeth newydd gael ei derbyn parthed yr asesiad ac adolygiad y Cwricwlwm Cenedlaethol.
3. O 2013-2014 drwodd i 2017-2018 derbyniodd aelodau CYSAG ddiweddariadau bob tymor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda Chwricwlwm Newydd Cymru. Mae CYSG yn disgwyl manylion pellach gan Lywodraeth Cymru ar ffurf AG yn y cwricwlwm, ynghyd â chyngor gan CCYSAGC, cyn cychwyn ar unrhyw adolygiad ar faes llafur addysg grefyddol cytûn. Mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio ymgynghoriad â CYSAGau ar le addysg grefyddol ym Meysydd Profiad Dysgu'r Dyniaethau yn Hydref 2018.

2.3 DEUNYDDIAU ADDYSGU

Nod: Sicrhau bod ysgolion yn cael eu hysbysu am adnoddau addysgu addas

Cam gweithredu

Darparwyd yr adnoddau a'r wybodaeth ganlynol i ysgolion yn ystod 2017-2018

1. Hysbyswyd pob ysgol o thema **Diwrnod Cofio'r Holocost 2018** a bod adnoddau'r Holocost i'w cael ar eu gwefan www.hmd.org.uk
2. Cynghorwyd ysgolion bod yr **RE News** a gyhoeddwyd yn flaenorol bellach ar gael i'w weld ar-lein yn y cyfeiriad canlynol: www.religious-education-wales.org
3. 3. Rheoli'r hawl i Eithrio o Addysg Grefyddol a gyhoeddwyd gan CCYSAGC.
4. **Bwletin Newyddion AG CYSAG:** Dosbarthwyd Bwletin AG CYSAG newydd tymhorol i bob ysgol ac at bawb â diddordeb. Roedd hwn yn cynnwys gwybodaeth am y Cwricwlwm Newydd, Adolygiad Thematig Estyn, diweddariadau CBAC, Wythnos Rhyng-ffydd a mannau addoli yn ogystal ag erthyglau a gyflwynwyd gan athrawon ac aelodau CYSAG o nifer o Awdurdodau Lleol.
5. Hysbyswyd ysgolion o'r **Ysgoloriaethau Farmington** a oedd ar gael i athrawon AG.
6. Rhannwyd **Bwletinau Newyddion Rhyng-Ffydd** ag ysgolion <https://www.interfaith.org.uk/news/ifn-e-bulletin>
7. Rhannwyd gwybodaeth ar **Visit My Mosque**
8. Dosbarthwyd gwybodaeth i ysgolion am **ymweliadau ac ymwelwyr** yn Ne Cymru.
9. Rhannwyd **BWLETIN POLISI CYTÛN** ag ysgolion.
10. Cylchlythyr Cyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr.
11. 11. Amrywiaeth Crefydd a Chred: Pecyn adnoddau canllaw ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru a Lloegr a gyhoeddwyd gan Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd.

2.4 HYFFORDDIANT ATHRAWON

Nod: Sicrhau bod athrawon yn gallu cyrchu datblygiad proffesiynol parhaus addas.

Cam gweithredu

1. Oherwydd diffyg diddordeb yn y cyrsiau a hysbysebwyd a'r angen yn sgil hynny i'w canslo, ni chynigiwyd cyrsiau AG gan yr awdurdod lleol drwy gyfrwng Consortiwm Canolbarth y De eleni.

2.5 CYDADDOLI

Nod: Sicrhau bod ysgolion yn cyflawni gofynion statudol i gydaddoli a chynnig profiad gwerth chweil i ddisgyblion.

Cam gweithredu

1. Mae CYSAG yn monitro adrannau'r adroddiadau archwilio sy'n ymwneud â chydaddoli a datblygiad diwylliannol, cymdeithasol, moesol ac ysbrydol. Os oes unrhyw faterion megis methu â chyflawni gofynion statudol, bydd yr ALl yn mynd ar ôl hyn. Yn ystod blwyddyn academaidd 2017-2018 doedd dim angen camau gweithredu dilynol o'r fath. Derbyniodd y ddarpariaeth ar gyfer cydaddoli sylwadau cadarnhaol a oedd yn nodi bod ysgolion yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda.
2. Mewn ymgynghoriad â'r ALl a'i ysgolion, penderfynodd CYSAG ddefnyddio hunanwerthusiad ysgolion fel dull o gyflawni ei gyfrifoldeb statudol i fonitro darpariaeth a safonau addysg grefyddol. Cytunwyd i gysylltu ag ysgolion yn y flwyddyn cyn yr archwiliad. Yn ystod blwyddyn academaidd 2013-2014 derbyniwyd gwybodaeth gan un ysgol gynradd yn unig er bod cais am wybodaeth wedi'i gyflwyno i naw ysgol. O ystyried hyn a'r drefn newydd o roi byr rybudd o arolygiad, cytunwyd i adolygu'r drefn o ofyn am adroddiadau hunanwerthuso. Gofynnwyd i benaethiaid am eu barn ar systemau amrywiol o wneud cais am wybodaeth. Yng nghyfarfod gwanwyn 2016, cytunwyd y byddai llythyr yn cael ei ysgrifennu at bob ysgol y derbyniwyd ei hadroddiad arolygiad yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, gan ei llongyfarch ar yr elfennau da a nodwyd gan Estyn a holi am wybodaeth drwy gyfrwng y ffurflen hunanwerthuso. Ni dderbyniodd CYSAG ymatebion yn ystod 2017-2018 a bydd CYSAG yn adolygu'r broses o fonitro drwy hunanwerthusiad yn nhymor yr hydref fel ei fod yn cyd-fynd â Fframwaith Arolygu newydd Estyn.

Dogfennau canllaw

Mae dogfennau canllaw i gefnogi ysgolion wrth ddarparu cydaddoli wedi bod ar gael drwy gyfrwng gwefan ALl/CYSAG.

2.6 MATERION ERAILL

Nod: Sicrhau CYSAG mwy gwybodus trwy ddarparu diweddariadau rheolaidd am faterion lleol a chenedlaethol.

CCYSAGC

Mae CYSAG wedi cynnal ei aelodaeth o CCYSAGC ac yn derbyn adborth bob tymor gan gynrychiolwyr yng nghyfarfodydd y gymdeithas.

Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG)

Mae Ymgynghorydd AG CYSAG Bro Morgannwg yn aelod o PYCAG ac yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ar ran CYSAG.

Adolygiad Cwricwlwm

Mae CYSAG wedi derbyn diweddariadau rheolaidd am ddatblygiad cwricwlwm newydd a'r oblygiadau ar gyfer addysg grefyddol.

Manylebau Arholiad Safon Uwch a TGAU

Ystyriodd CYSAG y materion sy'n ymwneud â Manylebau AG y Safon Uwch a TGAU newydd gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r ysgolion yn sgil hynny.

ADRAN TRI

CRYNODEB O'R CYNGOR AR ADDYSG GREFYDDOL I'R AWDURDOD LLEOL

3.1 Y MAES LLAFUR Y CYTUNWYD ARNO'N LLEOL

Yn ystod tymor gwanwyn 2008 cymeradwyodd a mabwysiadodd Cynhadledd Maes Llafur Cytûn faes llafur cytûn newydd ar gyfer ysgolion yr awdurdod a roddwyd ar waith ym mis Medi 2008. Mae'r maes llafur cytûn yn perthyn yn agos i'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol. Mae rhaglen flynyddol o hyfforddiant mewn swydd wedi parhau a hyfforddiant penodol ar y maes llafur cytûn wedi ei gynnig. Mae deunydd cymorth, gan gynnwys ffeiliau electronig *Progress in Learning* i ysgolion uwchradd, eisoes wedi'i ddosbarthu i ysgolion.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2012-2013 rhoddwyd gwybod i CYSAG am y cyhoeddiad gan y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau o adolygiad a oedd ar fin cael ei gynnal o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac asesu yng Nghymru. Byddai'r adolygiad hwn yn ymwneud â chyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a nodi adolygiadau i'r trefniadau asesu a'r cwricwlwm presennol. Ym mis Mehefin 2013 cymeradwyodd y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn ail-fabwysiadu maes llafur addysg grefyddol cytûn Bro Morgannwg, ar y ddealltwriaeth y câi'r maes llafur ei adolygu unwaith i wybodaeth newydd gael ei derbyn parthed yr asesiad a'r adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Yn 2014-2015 derbyniodd a thrafododd CYSAG gyflwyniad ynglŷn ag Adolygiad y Cwricwlwm: *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o Drefniadau'r Cwricwlwm ac Asesu yng Nghymru.* Cyflwynwyd ymateb i'r 'Ddadl Fawr' ar ran CYSAG.

O 2015-2016 i 2017-2017 derbyniodd CYSAG ddiweddariadau fesul tymor am yr ymgynghoriadau a wnaed parthed yr adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac asesu. Mae CYSAG yn disgwyl manylion pellach gan Lywodraeth Cymru ar ffurf AG yn y cwricwlwm, ynghyd â chyngor gan CCYSAGC, cyn cychwyn ar unrhyw adolygiad o faes llafur addysg grefyddol cytûn. Mae CYSAG wedi derbyn ac ymateb i gylchlythyrau gan Lywodraeth Cymru bob tymor yn ystod 2017-2018. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â CYSAGau ynghylch lle addysg grefyddol ym Meysydd Profiad Dysgu'r Dyniaethau ar gyfer y Cwricwlwm Newydd yn ystod tymor hydref 2018.

3.2 SAFONAU MEWN ADDYSG GREFYDDOL

Mae CYSAG wedi mabwysiadu nifer o strategaethau i fonitro safonau sy'n cael eu cyrraedd mewn addysg grefyddol yn ysgolion yr awdurdod sy'n cynnwys dadansoddi adroddiadau arolygiadau ysgol, adolygu canlyniadau arholiad a dadansoddi data diwedd Cyfnod Allweddol 3.

CANLYNIADAU ARHOLIAD

Ystyriodd CYSAG berfformiad arholiadau ysgolion uwchradd ar gyfer 2017. Caiff canlyniadau arholiad Bro Morgannwg eu cymharu â'r Consortiwm Lleol, ffigurau Cymru gyfan a chanlyniadau'r blynyddoedd blaenorol. Hysbysir aelodau CYSAG hefyd o ganran carfan Blwyddyn 11 sy'n cael ei chynnig ar gyfer arholiadau addysg grefyddol TGAU. Caiff canlyniadau'r arholiadau eu gyrru i'r holl ysgolion uwchradd yn yr awdurdod lleol.

Cyhoeddir manylion yn Atodiad 4 ynghyd â chanlyniadau 2015 a 2016.

Astudiaethau Crefyddol TGAU

- Yn 2017, bu cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU o'i gymharu â 2016 a 2015. Cynyddodd nifer cyfartalog y garfan a gofrestrwyd ym Mro Morgannwg yn 2017 i 58.7% o'i gymharu â 51.7% yn 2016 a 49% yn 2015. Mae'r duedd gynyddol hon yn parhau o 35.2% yn 2014.
- Canran gyffredinol graddau A*-A ar gyfer Bro Morgannwg yn 2017 oedd 31.2%. Parhaodd hyn i ostwng o 39.7% yn 2016 a 46.8% yn 2015. Fodd bynnag mae'n rhagori ar ffigur y consortiwm o 27.8% a ffigur Cymru gyfan o 24.7% ar gyfer 2017.
- Yn 2017 Roedd % gyffredinol graddau A*-C ar gyfer Bro Morgannwg yn 73.1% sy'n is na'r perfformiad yn 2016, sef 79.6%, ac yn 2015, sef 88.6%. Mae'r ffigur o 73.1% yn uwch na ffigur y consortiwm, sef 71.5% a ffigur Cymru gyfan o 68.3%.
- Canran cyffredinol graddau A* - G ar gyfer Bro Morgannwg oedd 99.2%. Mae hyn yn rhagori ar y perfformiad yn 2016 o 98.5% a pherfformiad blaenorol ac mae'n uwch na ffigur y consortiwm, sef 98.5%, a ffigur Cymru gyfan, sef 97.5%.

Cwrs Byr TGAU Astudiaethau Crefyddol

- Yn ystod 2017 cafwyd gostyngiad sylweddol iawn yn y **ffigurau mynediad** ar gyfer arholiad cwrs byr astudiaethau crefyddol yn 2017. Bu 159 o fyfyrwyr yn cofrestru ar gyfer yr arholiad o'i gymharu â **863 o fyfyrwyr** yn 2016 a 907 yn 2015. Nifer cyfartalog y garfan a gofrestrwyd ym Mro Morgannwg yn 2017 oedd 11.3% o'i gymharu â **56.7%** yn 2016 a **59.7%** yn 2015.
- A hithau'n 5.7%, gostyngodd % gyffredinol graddau **A*-A** ar gyfer Bro Morgannwg yn sylweddol o 2016 pan oedd yn **22.6%**. Mae hyn hefyd yn is na'r perfformiad yn 2015, sef 28.8%. Mae perfformiad Bro Morgannwg wedi gostwng yn is na ffigur y consortiwm, sef 7.5%, a ffigur Cymru gyfan, sef 9.8%. Yn y gorffennol, mae'r ffigur ar gyfer Bro Morgannwg wedi bod yn uwch na'r ffigurau perfformiad hyn.
- Canran gyffredinol graddau **A*-C** ar gyfer Bro Morgannwg yn 2017 oedd 33.3% sy'n ostyngiad sylweddol o **69.4%** yn 2016 a **76.6%** yn 2015. Mae hyn ychydig yn is na ffigur y consortiwm, sef 34.3%, ac yn is na ffigur Cymru gyfan, sef 39.6%.
- Canran gyffredinol graddau **A*-G** ar gyfer Bro Morgannwg yn 2017 oedd 85.5% sy'n is na pherfformiad yn 2016, sef **96.4%** , ac yn 2015, sef **97.5%**. Mae'r ffigur hwn yn is o'i gymharu â ffigur y consortiwm, sef 86.9%, a ffigur Cymru gyfan, sef 90.2%.

Astudiaethau Crefyddol Safon UG

- Dadansoddodd CYSAG ganlyniadau Astudiaethau Crefyddol Safon UG am y tro cyntaf yn 2016.
- Cyflwynwyd manyleb TAG Safon Uwch newydd CBAC ym mis Medi 2016 gyda'r canlyniadau arholiad cyntaf hyn yn 2017 ar gyfer Safon UG.
-
- Canran gyffredinol graddau A-E ar gyfer Bro Morgannwg oedd 85.7%, sy'n sylweddol is nag yn 2016, sef 93.5%. Mae perfformiad yn is na ffigur y Consortiwm, sef 76.4%.
- Canran gyffredinol graddau A-C ar gyfer Bro Morgannwg oedd 50.0%, sy'n sylweddol is na'r ffigur yn 2016, sef 78.5%. Mae perfformiad ar raddau A-C yn uwch na ffigur y consortiwm, sef 40.2%
- Canran gyffredinol graddau A ar gyfer Bro Morgannwg oedd 10.7% o'i chymharu â 25.6% yn 2016. Mae perfformiad ar radd A yn uwch na ffigur y Consortiwm, sef 7.1%

Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch

- Nifer y myfyrwyr a gofrestrwyd ar gyfer y Safon Uwch mewn Astudiaethau Crefyddol yn 2017 yw 102 o fyfyrwyr ar draws chwe ysgol. Mae hyn yn debyg i nifer y myfyrwyr a gofrestrwyd yn 2016 sef 106 o fyfyrwyr ar draws chwe ysgol, ac yn uwch na'r nifer a gofrestrwyd yn 2015, sef 87 o ddisgyblion o saith ysgol.
- Canran y gyfradd basio ar gyfer graddau A*-A yn 2017 oedd 19.6% Mae hyn yn ostyngiad o 25.5% yn 2016 ond yn debyg i 19.5% yn 2015. Mae'r ffigur perfformiad ar gyfer 2017 yn uwch ym Mro Morgannwg na'r ffigur ar gyfer y Consortiwm, sef 18.9% a ffigur Cymru Gyfan, sef 18.2%.
- Canran y gyfradd basio ar gyfer graddau A*-C yn 2017 oedd 75.5, sef gostyngiad o 2016 pan oedd yn 88.7%, ac o ffigur 2015, sef 81.6%. Mae'r perfformiad yn debyg i berfformiad y consortiwm o 75.2%, ond yn is na ffigur Cymru gyfan, sef 78.1%.
- Yn 2017 canran y gyfradd basio ar gyfer graddau A*-E oedd 93.1% Mae hyn yn is na'r 97.2% yn 2016 a'r gyfradd basio a gyflawnwyd yn 2015, sef 100%. Mae ffigurau 2017 hyn ychydig yn is na pherfformiad y consortiwm, sef 95.7%, ac yn is na ffigur Cymru Gyfan, sef 99.8%.

DATA CYFNOD ALLWEDDOL 3

Dadansoddodd CYSAG ddata asesiadau diwedd Cyfnod Allweddol 3 gan ysgolion Bro Morgannwg gan ei gymharu â data gweddill Consortiwm Canolbarth y De. Rhannwyd yr wybodaeth â'r holl ysgolion uwchradd yn yr awdurdod lleol am fod aelodau'n cytuno y byddai'n fuddiol i gefnogi dyfarniadau hunanwerthuso.

Mae lefelau diwedd Cyfnod Allweddol 3 wedi eu cyhoeddi yn Atodiad 5.

ADRODDIADAU AROLYGU YSGOLION

Mae CYSAG, gyda chydsyniad a chydweithrediad yr ALl, yn derbyn adroddiadau gan swyddogion proffesiynol ar safonau a darpariaeth ac yn adolygu adroddiadau cryno ar ganfyddiadau arolygiadau yn ogystal ag arolygon Estyn wrth iddynt godi. Mae CYSAG yn craffu ar adrannau perthnasol adroddiadau arolygiadau ysgolion awdurdodau lleol bob blwyddyn ac os oes unrhyw faterion yn codi ynglŷn ag addysg grefyddol, megis methu bodloni gofynion statudol, bydd yr awdurdod lleol yn mynd ar drywydd hyn.

Yn ystod 2017 arolygwyd saith ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd ym Mro Morgannwg.

Mae Fframwaith Arolygu Cyffredinol Estyn yn nodi mai enghreifftiau lle nad yw ysgol yn cydymffurfio â gofynion statudol yn unig y dylai arolygwyr adrodd amdanynt.

Nodwyd mai'r unig gyfeiriad uniongyrchol at addysg grefyddol oedd bod disgyblion un ysgol yn dysgu am agweddau ar ysbrydolrwydd yn briodol, er enghraifft yn eu gwersi addysg grefyddol pan fyddant yn dysgu am grefyddau gwahanol y byd ac yn eu cymharu. Nodwyd yn yr adroddiadau bod amrywiaeth eang o brofiadau ychwanegol, sy'n cynnwys ymweliadau addysgol ag addoldai sy'n cyfoethogi profiadau disgyblion yn effeithiol iawn.

Anfonwyd llythyr i bob ysgol gan CYSAG i gydnabod yr arfer da dan sylw.

HUNAN-WERTHUSO YSGOLION

Yn 2013-2014, penderfynodd CYSAG ddefnyddio hunanwerthusiad ysgolion fel dull o gyflawni ei gyfrifoldeb statudol i fonitro darpariaeth a safonau addysg grefyddol. Cytunwyd i gysylltu ag ysgolion yn y flwyddyn cyn yr archwiliad. Gwahoddwyd naw o ysgolion i gyflwyno adroddiad hunanwerthuso yn 2016-2017; fodd bynnag, dim ond gan un ysgol gynradd y derbyniwyd gwybodaeth. O ystyried hyn a'r drefn newydd o roi byr rybudd o arolygiad, cytunwyd i adolygu'r drefn o ofyn am adroddiadau hunanwerthuso. Gofynnwyd i benaethiaid am eu barn ar

systemau amrywiol o wneud cais am wybodaeth. Yng nghyfarfod gwanwyn 2016, cytunwyd y byddai llythyr yn cael ei ysgrifennu at bob ysgol y derbyniwyd ei hadroddiad arolygu yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, i'w llongyfarch ar yr elfennau da a nodwyd gan Estyn a holi am wybodaeth drwy gyfrwng y ffurflen hunanwerthuso. Ni dderbyniodd CYSAG ymatebion yn ystod 2017-2018 a bydd CYSAG yn adolygu'r broses o fonitro drwy hunanwerthusiad yn nhymor yr hydref fel ei fod yn cyd-fynd â Fframwaith Arolygu newydd Estyn.

3.3 DULLIAU ADDYSGU, DEWIS O DDEUNYDDIAU ADDYSGU, HYFFORDDIANT ATHRAWON

DEUNYDDIAU ADDYSGU

Mae CYSAG wedi hysbysu ysgolion o ystod eang o ddeunyddiau addysgu fel a ganlyn:

Diwrnod Cofio'r Holocost
Hysbyswyd pob ysgol o thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2017 a bod adnoddau'r Holocost i'w cael ar eu gwefan www.hmd.org.uk – mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, achosion astudiaeth, deunyddiau cydaddoli a thaflenni gwaith sy'n addas i fyfyrwyr ôl-16.

Newyddion AG
Cynghorwyd ysgolion bod yr RE News a gyhoeddwyd yn flaenorol bellach ar gael i'w weld ar-lein yn y cyfeiriad canlynol: www.religious-education-wales.org

Canllaw ar y Cymal Eithrio
Dosbarthodd CYSAG y ddogfen CCYSAGC ar Reoli'r Hawl i Eithrio o Addysg Grefyddol i bob ysgol a CYSAG.

Bwletin Newyddion AG CYSAG: Sefydlwyd Bwletin Newyddion CYSAG tymhorol a'i ddosbarthu i bob ysgol a pharti â diddordeb. Dosbarthwyd gwybodaeth hefyd i ysgolion am **ymweliadau ac ymwelwyr** yn Ne Cymru.

Ysgoloriaethau Farmington
Mae rhwydd hynt i ysgolorion astudio unrhyw agwedd ar Addyg Grefyddol y dymunant ond rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr y gellir gweld y bydd eu gwaith o werth uniongyrchol i addysgu AG mewn ysgolion.

Bydd yr ysgoloriaeth yn ddigonol i dalu am ffioedd dysgu, bwyd a llety lle bo'n briodol, teithio lleol hanfodol a, thrwy drafod â'r ysgol, gyflog athro cyflenwi hyd at bwnt 6 ar y brif raddfa gyflog.

Gellir cymryd ysgoloriaethau ysgol/cartref ar ffurf diwrnod astudio, er enghraifft am un diwrnod yr wythnos dros dymor neu dros flwyddyn neu am gyfnodau parhaus o hyd at uchafswm o 30 diwrnod.
Gellir cymryd ysgoloriaethau prifysgol fel bloc o wyth wythnos neu ar ffurf diwrnod astudio am hyd at 30 diwrnod.

Am fwy o wybodaeth gall ysgolion edrych ar www.farmington.ac.uk neu e-bostio farminton@hmc.ox.ac.uk

Rhannwyd **Bwletinau Newyddion Rhyng-Ffydd** ag ysgolion
https://www.interfaith.org.uk/news/ifn-e-bulletin

Rhannwyd gwybodaeth ar **Visit My Mosque**. A hithau yn ei phedwaredd flwyddyn, mae Visit My Mosque yn ymgyrch genedlaethol sydd wedi mynd o nerth i nerth. Yn 2018 roedd dros 200 mosg ar agor dros y wlad gyda 12 mosg yng Nghymru yn cymryd rhan ar ddydd Sul 18fed

Chwefror. Roedd hyn yn gyfle i'r gymuned ehangach ymweld â'u mosg lleol, cwrdd â Mwslimiaid lleol, dysgu am grefydd Islam, holi cwestiynau a gwneud ffrindiau newydd. Canfuwyd gwybodaeth ar http://www.visitmymosque.org/about/ a rhanwyd hon ag ysgolion. Mae llawer o'r mosgiau hyn ar agor i ymwelwyr drwy'r flwyddyn.

Dosbarthwyd hefyd restr o **adnoddau am ddim** i ysgolion ac roedd y rhain yn cynnwys awgrymiadau am wefannau defnyddiol yn ogystal â dosbarthu gwybodaeth i ysgolion ar **ymweliadau ac ymwelwyr** yn Ne Cymru.

Rhannwyd **BWLETIN POLISI CYTÛN** Eglwysi Ynghyd yng Nghymru ag ysgolion http://www.cytun.org.uk/index.html. Mae CYTÛN yn cynhyrchu bwletinau trwy gydol y flwyddyn.

3.3.2 HMS

HMS Consortiwm Canolbarth y De
Oherwydd diffyg diddordeb yn y cyrsiau a hysbysebwyd a'r angen yn sgil hynny i'w canslo, ni chynigiwyd cyrsiau AG gan yr awdurdod lleol drwy gyfrwng Consortiwm Canolbarth y De eleni.

ADRAN PEDWAR

CRYNODEB O'R CYNGOR AR GYDADDOLI

Mae monitro cydaddoli wedi parhau trwy adolygiad o ganfyddiadau adroddiadau arolygu.

4.1 ADRODDIADAU AROLYGU YSGOLION

Yn ystod 2017-2018 adolygwyd adroddiadau arolygu saith ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd ym Mro Morgannwg.

Mae Fframwaith Arolygu Cyffredinol Estyn mai enghreifftiau lle nad yw ysgol yn cydymffurfio â gofynion statudol o ran cydaddoli yn unig y dylai arolygwyr adrodd amdanynt. Nododd Estyn nad oedd unrhyw enghraifft o ddiffyg cydymffurfio â gofynion statudol ynglŷn â chydaddoli.

Datblygiad Ysbrydol
Roedd sylwadau ynglŷn â datblygiad ysbrydol yn amlwg ym mhob adroddiad arolygu. Roedd pwyslais cryf ar brofiadau dysgu, gweithgareddau cyfoethogi ac enghreifftiau o gydaddoli yr oedd pob un o'r rhain yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad ysbrydol disgyblion a'u datblygiad moesol.

Cydaddoli
Bodloni gofynion statudol
Mae Fframwaith Arolygu Cyffredinol Estyn yn nodi mai enghreifftiau lle nad yw ysgol yn cydymffurfio â gofynion statudol o ran cydaddoli yn unig y dylai arolygwyr adrodd amdanynt. Gan nad yw Estyn wedi nodi unrhyw achosion eraill o ddiffyg cydymffurfio, dylem dybio bod pob ysgol arall a arolygwyd yn ystod Mai 2017-Mai 2018 yn bodloni'r gofynion statudol mewn perthynas â chydaddoli.

Mae sylwadau ynglŷn â datblygiad ysbrydol i'w gweld yn amlwg ym mhob adroddiad arolygu. Mae pwyslais cryf ar brofiadau dysgu, gweithgareddau cyfoethogi a gweithredoedd cydaddoli sydd oll yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn y rhan fwyaf o'r adroddiadau. Mewn un ysgol mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol ar draws yr ysgol yn nodwedd ragorol.

Ansawdd y Cydaddoli
Lle caiff ansawdd y cydaddoli ei grybwyll mewn adroddiadau arolygu a dynnir sylw at nifer o nodweddion da.

Mae digwyddiadau cydaddoli:

- yn hyrwyddo myfyrdod ysbrydol disgyblion yn effeithiol
- yn darparu cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion fyfyrio
- yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o faterion crefyddol a moesol
- yn cael eu cynllunio'n dda iawn ac â themâu
- yn dilyn rhaglen gynhwysfawr
- yn cael eu cefnogi'n effeithiol iawn gan fewnbwn ychwanegol gan ystod eang o asiantaethau allanol
- yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd megis goddefgarwch a pharch ac yn rhoi cyfle i ddisgyblion fod yn 'llawn parchedig ofn'
- yn galluogi disgyblion i fyfyrio ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain
- Ysgrifennodd CYSAG at bob ysgol i gydnabod ei harfer da

Dogfennau Canllaw ar gyfer Cydaddoli
Mae casgliad o ddogfennau canllaw ar Gydaddoli wedi'i ychwanegu at dudalennau CYSAG http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/working/education_and_skills/Standing-Advisory-Council-for-Religious-Education-(SACRE).aspx
Dylai'r rhain fod o ddiddordeb a chefnogi pob ysgol ac unrhyw un sy'n ymweld ag ysgolion i helpu gyda darpariaeth Cydaddoli.

4.2 HUNANWERTHUSO YSGOLION

Yn 2013-2014, penderfynodd CYSAG ddefnyddio hunanwerthusiad ysgolion fel dull o gyflawni ei gyfrifoldeb statudol i fonitro darpariaeth a safonau addysg grefyddol. Cytunwyd i gysylltu ag ysgolion yn y flwyddyn cyn yr arolygiad. Gwahoddwyd naw ysgol i gyflwyno adroddiad hunanwerthuso; fodd bynnag, dim ond gan un ysgol gynradd y derbyniwyd gwybodaeth. O ystyried hyn a'r drefn newydd o roi byr rybudd o arolygiad, cytunwyd i adolygu'r drefn o ofyn am adroddiadau hunanwerthuso. Gofynnwyd i benaethiaid am eu barn ar systemau amrywiol o wneud cais am wybodaeth. Bydd CYSAG yn parhau i ddefnyddio adroddiadau arolygu i fonitro bod gofynion statudol yn cael eu bodloni ac i ystyried pa sylwadau ar gydaddoli a datblygiad ysbrydol sy'n berthnasol. Ar ben hynny, yng nghyfarfod gwanwyn 2016, cytunwyd y byddai llythyr yn cael ei ysgrifennu at bob ysgol y derbyniwyd ei hadroddiad arolygu yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, i'w llongyfarch ar yr elfennau da a nodwyd gan Estyn a holi am wybodaeth drwy gyfrwng y ffurflen hunanwerthuso. Dilynwyd yr arfer hwn yn 2017-2018. Ni chafwyd ymatebion i geisiadau am hunanwerthusiadau a bydd CYSAG yn adolygu'r weithdrefn hon, gan ystyried fframwaith arolygu newydd Estyn, yn 2018-2019.

4.3 PENDERFYNIADAU

Fel y llynedd, ni dderbyniwyd ceisiadau gan ysgolion am benderfyniadau i gael eu gwneud ar ddiddymu'r gofynion i gydaddoli fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf o natur Gristnogol fras.

ADRAN PUMP

CRYNODEB O FATERION ERAILL

5.1 CCYSAGC

Mae CYSAG yn parhau i gefnogi gwaith Cymdeithas Gymreig CYSAG (CCYSAGC) ac yn cydnabod gwerth y corff wrth hyrwyddo addysg grefyddol a chydaddoli yn genedlaethol. Yn ystod 2017-2018 adroddwyd am faterion a ystyriwyd yng nghyfarfodydd CCYSAGC i CYSAG. Mae Ymgynghorydd AG CYSAG hefyd yn Ysgrifennydd i CCYSAGC.

Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG)

Mae Ymgynghorydd AG CYSAG Bro Morgannwg yn aelod o PYCAG ac yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ar ran CYSAG. Yn y modd hwn mae CYSAG yn gallu bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yng Nghymru a chwarae rhan allweddol wrth gyfeirio penderfyniadau a pholisïau sy'n effeithio ar addysg grefyddol.

5.3 Adolygiad Cwricwlwm: Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o Drefniadau'r Cwricwlwm ac Asesu yng Nghymru.

Mae CYSAG wedi derbyn diweddariadau fesul tymor am ddatblygiadau cwricwlwm a bydd yn parhau i fonitro datblygiadau pellach yn yr adolygiad cwricwlwm ac ymateb yn briodol ar sail barhaus fel sy'n briodol. Mae Addysg Grefyddol yn parhau yn ofyniad statudol yn y cwricwlwm o'r dosbarth derbyn. Yn y cwricwlwm newydd bydd Addysg Grefyddol yn rhan o Feysydd Profiad Dysgu'r Dyniaethau. Yn ystod 2017-2018 anfonodd Llywodraeth Cymru gylchlythyr bob tymor at CYSAGau yn amlinellu gwaith datblygu'r Ysgolion Arloesi mewn perthynas ag Addysg Grefyddol yn y Dyniaethau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddai'n hoffi cael deialog ddwyffordd â'r CYSAGau ynghylch eu barn ar Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm newydd. Mewn cylchlythyrau i CYSAGau amlinellodd Llywodraeth Cymru'r dull 'Yr Hyn sy'n Bwysig' sydd wedi'i fabwysiadu ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm newydd i Gymru a rhannodd rai drafftiau cychwynnol o'r grŵp Dyniaethau â CYSAG. Mae Grŵp Arloeswyr Meysydd Profiad Dysgu'r Dyniaethau wedi bod yn mireinio eu datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig a'r rhesymeg gysylltiedig yn rheolaidd. Maent hefyd wedi datblygu fframweithiau dilyniant drafft sy'n amlinellu'n fras y daith ddysgu i ddisgyblion 5, 8, 11, 14 ac 16 oed (Camau Cynnydd 1-5). Mae'r fframweithiau a rannwyd â CYSAG yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed hyd yma mewn perthynas â dilyniant a bydd yn sail ar gyfer mynegi dilyniant a datblygu deilliannau cyflawniad yn y cwricwlwm newydd. Nid yw'r fframweithiau dilyniant yn elfennau cwricwlwm ynddynt eu hunain. Gwahoddodd Llywodraeth Cymru sylwadau gan CYSAG am y cynigion diweddaraf ar ddau bwynt yn ystod 2017-2018. Trafododd CYSAG y cynigion yn ystod cyfarfodydd a thrwy ymatebion pellach a anfonwyd at yr ymgynghorydd, Paula Webber, a oedd yn coladu'r ymatebion ac yn eu hanfon ymlaen at Lywodraeth Cymru ar ran CYSAG.

Bydd Llywodraeth Cymru yn egluro'r berthynas rhwng Meysydd Profiad Dysgu'r Dyniaethau a'r Maes Llafur Cytûn lleol yn ystod 2018-2019 a bydd yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr CCYSAGC a PYCAG i ddatblygu cynigion yn ogystal â phroses ymgysylltu i geisio barn CYSAG yn ystod tymor yr hydref.

Rhannodd yr ymgynghorydd y pryderon canlynol â Llywodraeth Cymru:

- Nid oedd CYSAG yn dymuno gweld y pwnc yn cael ei wanhau yn y cwricwlwm newydd
- Bod y pwnc i gael ei addysgu gan rai nad ydynt yn arbenigwyr
- Os yw'r disgyblion yn cael eu haddysgu gan rai nad oeddent yn arbenigwyr byddent yn cael anhawster â'r her o gymwysterau disgyblaeth benodol rhwng 14-16 oed.

- Mae angen athrawon arbenigol i ddarparu Addysg Grefyddol

Atodiad 1

AELODAETH CYSAG 2017-18

Yn cynrychioli'r ALl: 6 Lle

Y Cynghorydd Eddie Williams - Cadeirydd
Y Cynghorydd Bob Penrose
Y Cynghorydd Geoff Cox
Y Cynghorydd Nic Hodges
Y Cynghorydd Ms Bronwen Brooks
Y Cynghorydd Julie Aviet

Cymdeithasau Athrawon: 8 Lle

Karen Stapleton	Ysgol Gyfun Bryn Hafren
Natalie Howells	Ysgol Gyfun St Cyres
Rebecca Norris	Ysgol Gynradd Llandochau
Mrs Carys Jones	Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr
Joy Rhodes	Ysgol Gynradd Tregatwg
Ms Ruth Davies	Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Morgannwg
(1 Lle Gwag)	

Cynrychiolwyr Crefyddol: 12 Lle

Carol Challis	Eglwys y Methodistiaid
Y Tad Ben Andrews	Yr Eglwys yng Nghymru
Y Parchedig Phil Hibbert	Bedyddiwr
Mr Moawia Bin-Sufyan	Mwslim
Mrs Nicky Price	Eglwys Gatholig
Dr Ramez Delpak	Ffydd y Bahá'í
Radhika Kadaba	Hindŵ
(5 Lle Gwag)	

Aelodau Cyfetholedig: 4 Lle

Mr Dafydd Treharne	Ysgolion Cynradd Cymraeg
(3 Lle Gwag)	

Swyddogion:

Trevor Baker	Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau
Jeremy Morgan	Clerc
Paula Webber	Ymgynghorydd AG

Atodiad 2

COFNODION CYFARFODYDD CYSAG

Cynhaliwyd tri chyfarfod o CYSAG yn ystod blwyddyn academaidd 2017– 2018:

- 8fed Tachwedd, 2017
- 2il Mai 2018
- 13eg Mehefin 2018

8fed Tachwedd, 2017

- Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb
- Ethol Cadeirydd
- Ethol Is-gadeirydd
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf ar 14eg Mehefin 2017
- Materion yn codi a chamau gweithredu
- Adroddiad Blynyddol CYSAG 2016 - 2017
- Aelodaeth CYSAG
- Monitro darpariaeth a safonau – AG a Chydaddoli
    - Diweddariad - Danfonwyd llythyron ac arolwg i ysgolion uwchradd Bro Morgannwg ynglŷn â gofynion statudol ar gyfer Addysg Grefyddol
    - Hunanwerthusiadau a Llythyron Ysgol
    - Adolygiad Thematig Estyn o AG ar CA2 a CA3 yn 2017/2018
- Diweddariad am ddatblygiad y Cwricwlwm
- Grŵp cynllunio gan gynnwys llythyron at CYSAGau o Lywodraeth Cymru
- Papur a Gomisiynwyd gan CCYSAGC
- Gwaith Ymarferydd Arweiniol i gefnogi rhoi'r TGAU AG newydd ar waith
- Cofnodion a busnes CCYSAGC
- Eitemau'r Aelodau ac awgrymiadau ar gyfer Bwletin Newyddion CYSAG
- Pecyn Gwybodaeth CYSAG
- Amserlen cyfarfodydd y dyfodol

2il Mai 2018

- Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf
- Materion yn codi a chamau gweithredu
- Aelodaeth CYSAG
- Eitemau ac awgrymiadau ar gyfer Bwletin Newyddion CYSAG
- Diweddariad am ddatblygiad y Cwricwlwm
    - Llythyr a dogfennau ategol i CYSAGau o Lywodraeth Cymru
    - Dogfen canllaw CCYSAGC ar *Reoli'r Hawl i Eithrio o Addysg Grefyddol* a holiadur CCYSAGC i ysgolion
- Monitro darpariaeth a safonau – AG a Chydaddoli
    - Y broses hunanwerthuso
    - Crynodeb o'r adroddiadau arolygu ysgolion
    - Dadansoddi data arholiadau TGAU
    - Dadansoddi data CA3
- Cyflwyniad a thrafodaeth: Paula Webber: Rôl a Chyfrifoldebau CYSAG
- Busnes a chofnodion CCYSAGC
- Gohebiaeth

- Dyddiad cyfarfod CYSAG yr Haf

13eg Mehefin 2018

- Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf ar 2il Mai 2018
- Materion yn codi a chamau gweithredu
- Aelodaeth CYSAG
- Eitemau'r Aelodau ac awgrymiadau ar gyfer Bwletin Newyddion CYSAG
- Diweddariad am ddatblygiad y Cwricwlwm
- Llythyr a dogfennau ategol i CYSAGau gan Lywodraeth Cymru
- Y Comisiwn ar Addysg Grefyddol (Lloegr) a'i berthnasedd i Gymru
- Monitro darpariaeth a safonau – AG a Chydaddoli
    - Crynodeb yr adroddiadau arolygu ysgolion
    - Adolygiad Thematig a Diweddariad Estyn
- Busnes a chofnodion CCYSAGC
- Gohebiaeth
- Dyddiadau cyfarfodydd CYSAG ar gyfer 2018-2019

Atodiad 3

RHESTR SEFYDLIADAU
YR ANFONWYD YR ADRODDIAD HWN ATYNT

- Pob ysgol ym Mro Morgannwg
- Adran dros Addysg a Sgiliau
- Llywodraeth Cymru
- Estyn
- Cyfarwyddwyr Addysg, pob ALl Cymreig arall
- Cymdeithas CYSAGau Cymru
- Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant
- Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru - Bangor
- Consortiwm Canolbarth y De
- Yr Eglwys yng Nghymru (Esgobaeth Llandaf)
- Esgobaeth Caerdydd yr Eglwys Gatholig
- Eglwysi eraill
- Cymdeithas Athrawon Addysg Grefyddol Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Mudiad Addysg Grefyddol Cymru
- Cytûn
- Prifysgol Fetropolitan Abertawe

Atodiad 4

CANLYNIADAU ARHOLIADAU

Dadansoddiad Canlyniadau Arholiadau 2017 – TGAU Astudiaethau Crefyddol

	BM 2015	BM 2016	BM 2017	Consortiwm 2017	Cymru Gyfan 2017
A*- A	46.8%	39.7%	31.2%	27.8%	24.7%
A* - C	88.6%	79.6%	73.1%	71.5%	68.3%
A* - G	98.5%	98.5%	99.2%	98.5%	97.5%
Mynediad	745 myfyriwr (49% o'r garfan) 6 ysgol	786 myfyriwr (51.7% o'r garfan) 8 ysgol	825 myfyriwr (58.7% o'r garfan) 8 ysgol	4789 myfyriwr (50.8% o'r garfan)	12401 myfyriwr (39.5% o'r garfan)

Dadansoddiad Canlyniadau Arholiadau 2017 – Cwrs Byr TGAU Astudiaethau Crefyddol

	BM 2015	BM 2016	BM 2017	Consortiwm 2017	Cymru Gyfan 2017
A*- A	28.8%	22.6%	5.7%	7.5%	9.8%
A* - C	76.6%	69.4%	33.3%	34.3%	39.6%
A* - G	97.5%	96.4%	85.5%	86.9%	90.2%
Mynediad	907 myfyriwr (59.7% o'r garfan) 7 ysgol	863 myfyriwr (56.7%) 8 ysgol	159 myfyriwr (11.3% o'r garfan) 8 ysgol ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol	2607 myfyriwr (28%)	9343 myfyriwr (29.8%)

Dadansoddiad Canlyniadau Arholiadau 2017 – Safon UG Astudiaethau Crefyddol

	BM 2016	Consortiwm 2016	BM 2017
A	25.6%	20.1%	10.7%
A - C	78.5%	73.5%	50.0%
A - C	97.5%	95.8%	85.7%
Mynediad	121 myfyriwr 5 ysgol	740 myfyriwr	28 myfyriwr 5 ysgol

Dadansoddiad Canlyniadau Arholiadau 2017 – Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol

	BM 2015	BM 2016	BM 2017	Consortiwm 2017	Cymru Gyfan 2017
A*- A	19.5%	25.5%	19.6%	18.9%	18.2%
A* - C	81.6%	88.7%	75.5%	75.2%	78.1%
A - E	100%	97.2%	93.1%	95.7%	99.8%
Mynediad	87 myfyriwr 7 ysgol	106 myfyriwr 6 ysgol	102 myfyriwr 6 ysgol	513 myfyriwr	1305 myfyriwr

ATODIAD 5 Lefelau Addysg Grefyddol Bro Morgannwg Cyfnod Allweddol 3 Blwyddyn 9 2017																
POB DISGYBL	**Nifer ar y Gofrestr**	**Dim Lefel**	**Wedi Datgymhwyso**	**% Lefel 1**	**% Lefel 2**	**% Lefel 3**	**% Lefel 4**	**% Lefel 5**	**% Lefel 6**	**% Lefel 7**	**% Lefel 8**	**% Yn Eithriadol**	**% Cyfanswm y Disgyblion**	**% L 5+**	**% L 6+**	**% L 7+**
BM	1330	0.0	0.4	0.0	0.1	0.8	12.3	36.2	32.5	15.5	2.6	0.2	100.0	86.9	50.8	18.3
Consortiwm	7539	0.4	0.2	0.0	0.1	1.4	9.2	34.0	35.7	16.8	2.1	0.1	100.0	88.7	54.6	18.9

Bechgyn	**Nifer ar y Gofrestr**	**% Dim Lefel**	**% Wedi Datgymhwyso**	**% Lefel 1**	**% Lefel 2**	**% Lefel 3**	**% Lefel 4**	**% Lefel 5**	**% Lefel 6**	**% Lefel 7**	**% Lefel 8**	**% Yn Eithriadol**	**% Cyfanswm y Disgyblion**	**% L 5+**	**% L 6+**	**% L 7+**
Bro Morgannwg	697	0.0	0.7	0.0	0.0	1.1	17.9	43.0	27.3	9.6	1.0	0.0	100.0	80.9	37.9	10.6
Consortiwm	3852	0.3	0.3	0.1	0.2	1.9	11.8	40.4	33.1	11.1	0.9	0.0	100.0	85.5	45.1	12.0

Merched	**Nifer ar y Gofrestr**	**% Dim Lefel**	**% Wedi Datgymhwyso**	**% Lefel 1**	**% Lefel 2**	**% Lefel 3**	**% Lefel 4**	**% Lefel 5**	**% Lefel 6**	**% Lefel 7**	**% Lefel 8**	**% Yn Eithriadol**	**% Cyfanswm y Disgyblion**	**% L 5+**	**% L 6+**	**% L 7+**
Bro Morgannwg	633	0.0	0.0	0.0	0.2	0.3	6.0	28.6	38.2	22.0	4.4	0.3	100.0	93.5	64.9	26.7
Consortiwm	3687	0.4	0.0	0.0	0.1	1.0	6.5	27.4	38.4	22.6	3.4	0.1	100.0	91.9	64.6	26.2